

Llên natur

Bwletin 157

Mawrth 2021

gan gynnwys Clwb y Llygaid Bach,
adnodd i blant, athrawon a rhieni,
ar y dudalen gefn



Llinos Griffin, 6 Ionawr 2021
Draig y Fedwen Arian yn sbecian
Llandecwyn.

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan **Gymdeithas Edward Llwyd**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia
Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

(Rhif elusen: 1126027) **Cymdeithas**



Defnyddio rhaffau: Rhaffu tas wair



Hel Gwair, Bryn-Efail-Isaf, tua 1925
Dyma fel yr oedd Hel Gwair yma tua 1925.

Cyfrannwyd y llun gan Elinor Roberts

Fy nhad ynghyfraith William Roberts Bryn-Efail-Isaf [ardal Dolbenmaen?] hefo'r gribyn.

Mae Mois, Gwilym Morris Jones, un o gyfeillion Llên Natur, yn cynnig hanes arall i ni sef gwaith rhaffu tasau gwair. Roedd **Bwletin Ionawr yn cynnwys hanes defaid cadw gan Mois ac astudiaeth am y draddodiad o wneud rhaffau ers talwm.**

Yr hen ffordd ●●● Roedd yr hen ffordd o osod a thoi tas wair yn yr awyr agored yn yr hen ddyddiau yn grefft arbennig iawn, un erbyn heddiw sydd bron wedi diflanu ac yn hollol ddieithr i'r rhan fwyaf o bobl.

Wedi i'r das ei gosod, byddai angen rhywbeth i orchuddio ac amddiffyn y to rhag y tywydd garw. Un ffordd o wneud hyn fyddai gosod matiau gwellt fyddai'r merched wedi eu plethu o wair hesg. Byddai'r matiau hyn wedi eu cadw mewn rhywel neu ysgubor dros yr haf i'w cadw'n sych ar gyfer y diwrnod toi. Byddai'r matiau yma yn well o lawer na hen hwyliau i arbed a gwarchod y das. Yr unig leithder neu wlybanaeth i ymddangos fyddai o dan lle gorweddai'r matiau gwellt.

Toi'r das a thorri'r to ●●● Byddai'r diwrnod yn dod pan fyddai angen toi'r das a thorri'r to. Gan fod rhai o'r tyddynwyr heb lawer o dyfiant ar eu tir, caniatawyd iddynt fynd i ambell fferm gyfagos i dorri a chasglu'r tyfiant ar gyfer yr orchwyl. Pethau fel brwyn a llafwrwyn fyddai rhain ran amlaf, ynghyd â phob math o sgrwffiach, rhywbeth â hyd go dda ynddo. Byddai'r dynion yma yn llafurio am ddyddiau yn torri a chario'r tyfiant nôl i'r tyddyn a'i adael yn dwmpath yn y gadlas yn barod ar gyfer ei ddefnyddio.

Cedwid y brwyn hiraf ar wahan i'r brwyn byrion a hynny ar gyfer gwneud ysgubau. Gosodwyd y 'sgubau ar ogwydd yn erbyn ochr y das wair er mwyn iddynt gamu a mynd yn grwn. Yna, eu gosod ar dalceni a chonglau'r to i'w orffen yn dwt a thaclus.

Byddai'r sawl oedd yn toi'r das yn sefyll ar ystol hir a mynd ati'n ddyfal i galedu a gosod pen y das yn drefnus cyn rhoi'r matiau gwellt i orwedd a dechrau rhaffu.

Byddai'r töwr yn cychwyn o'r gwaelod, ac wedi cyrraedd y fargod, gwthio gwanaf o hen weiriach sâl a'i bacio'n dynn er mwyn ei chodi.

Y rhaff gorun ●●● Yna, cychwyn efo'r 'Rhaff Gorun' o un pen a'i thynnu dros ac ar hyd y matiau gwellt am rhyw ddwy droedfedd ar y tro, ac i wneud pen y das, rhoi'r 'Rhaff Draws' i'w chadw'n soled yn ei lle. Wedi cael y rhes i gychwyn, a'i chychwyn yn union, byddai'n haws i'r gosodwr gario 'mlaen i doi. Doedd ddim gwahaniaeth os byddai rhywfaint o wair yn ymddangos rhwng y matiau gwellt, os rhywbeth, byddai'r gwair yma yn llawn gwellt am gadw.

Wedi cyrraedd pen y das ●●● Wedi cyrraedd pen y das rhoddyd 'topyn' o frwyn o dan un ochr i'r 'Rhaff Gorun' i'w sadio. Yna bachu'r 'Rhaff Gerdded', neu'r 'Rhaff Bach' fel y'i gelwid yn y 'Rhaff Gorun' dros y talcen gan adael rhywfaint o ofod rhwng y rhaffau eraill. Dyma pryd roedd yn bwysig gofalu bod y fargod yn soled a chadarn rhag i'r gwynt cryf ei chwythu a'i chwalu. Byddai'r töwr wedyn yn tynnu o ddeutu hanner dwsin o raffau ar ei ôl a gwneud nifer o sgwariau fel bod top y das wedi ei rhwydo'n daclus a phob blewyn yn ei le.

I orffen y das, byddai'n mynd o'i hamgylch gyda siswrn barbio neu gyllell finiog i dacluso a thwtio'r ochrau fel bo'r angen.

Dyna'r hen das wedyn yn soled a chadarn ac yn barod at ddechrau'r gaeaf

Ar ddechrau'r gaeaf ●●● Ar ddechrau'r gaeaf byddai'r tyddynwr yn dringo i ben y das i agor y rhaffau a'u cadw ar gyfer yr haf nesaf. Yna byddai'n torri cilfainc lawr un ochr i'r das efo cyllell bwrpasol, '**haearn gwair**' fel y'i gelwid, wedi ei lifo fel pladur. Yna cario'r cilfainc yn **drenglenid** i'r cwt wrth y beudu a rhoi'r gwair gorau i'r buchod a'r lloeau gan adael y gwair salaf i un ochr i wneud tamed o swper iddynt 'sgil gnoi' tan y bore.

Pan fyddai'r gwynt yn gryf, byddai'n anodd rhoi'r gwair i mewn wrth i'r drengelid gael ei chwythu oddi'ar gefn rhywun. Hefyd yn ystod y gwynt, byddai'n beryg i'r das godi.

Erbyn y Gwanwyn, byddai'r gwair wedi mynd yn brin ac eitha llwm, a'r gwartheg yn cael eu troi allan i bori.

I gloi

Rhai o'r rhaffau ddefnyddwyd i wneud tas wair fyddai, 'Rhaff Gorun', 'Rhaff Draws' 'Rhaff Fargod' 'Rhaff Gerdded', ynghyd a 'Rhaffau Bach' neu 'Rhaff Sengl, wedi eu gwneud o'r gwair gorau. Yn ogystal, byddai nifer o'r ffermwyr a thyddynwyr yn cadw gwellt ceirch mân ar gyfer gwneud rhaffau. Gwneuthpwyd hefyd raffau gwair i wneud aerwyon i roi am wddf y gwartheg a'r lloeau yn y beudu.

Rhaff anghyffredin arall oedd 'Rhaff Lyfn' a ddefnyddwyd i wneud carcharau am draed y defaid cadw fyddai'n cael eu trosglwyddo o'r tir uchel i diroedd llawr gwlad i bori'r gaeaf.

Gan fod y defaid hyn, (yn enwedig y meheryn) ymhell o'u cynefin, byddant yn tueddu i grwydro a mynd ar goll. Yn wahanol iawn i'r cortyn coch a ddefnyddid fel carchar gan ambell un, byddai'r carcharau llyfn wedi hen bydru ymhen y mis a'r defaid wedi crwydro ymhell o'r caeau.

(Roedd yr arferiad yma yn yr hen ddyddiau yn eithriadol o greulon a dweud y lleiaf. Rhywbeth fuasai'r awdurdodau y dyddiau yma yn siwr o ymateb yn chwynr iddo).

Mois



Llun Einir Thomas (30/08/2016)

Tas wair ger Inisboffin, gorllewin Iwerddon

Llafar gwlad gan Mois

■ Hen gymeriad glywyd un tro yn dweud am yr anifeiliaid.

"Wel lwga nhw ddim reit siwr achos dw'i wedi gweld y milful. Mae wedi mynd acw nad oes seilwnc, i'r un creadur sydd ar y lle 'cw'!"

- seilwnc = 'cesail lwnc'
- y '**milful**' yw hen weyrn bach sál a rhywbeth fel rhedyn ar ei ben, y salaf o'r gweiriau efallai.

Byddai'r hen bobl yn arfer dweud, "Os ydi'r milful wedi dwad, wnaiff ddim byd lwgu"!

Rhaff ddwbl i orffen!

Dyma enghraifft o raff ddwbl. Nid y lluniau gorau mae arnai ofn, ond yn gofnod o hen grefft sydd wedi diflannu i bob pwrpas. 'Roedd genni hen bren rhaffau hefyd, dim syniad lle'r aeth

hwnnw yn anffodus.

Myrddin Williams



Crïw tyllu am ddefaid



Gobeithio na fydd angen offer tebyg i rai John Edwards Caecoch, Ifan Cefnbraich, Guto Bach Dolfeili a Dewi Gelli dros y gaeaf yma. Tyllu defaid allan o luwchfeydd? Y pastwn arbennig sydd gan Dewi, i brocio'r lluwch nes taro meddalwch dafad. [dim dyddiad ar y llun]

Alun Elidir

Fy nhad yw'r ail o'r chwith wrth edrych ar y llun ("Ifan Cefnbraich"), a mae trafodaeth deuluol ar waith i geisio gwirio'r flwyddyn. 1947 sydd wedi'i chynnig, ond dydym ni ddim yn siwr.

Margaret Edwards


Dim ond un o'r pedwar welaf fi gydag offer fyddai o fudd i ganfod y defaid yn y lluwchfeydd.....a hwnnw ydy'r unheb ei getyn!!!....a gyda ffon brocio fyddai'n anghenrheidiol i'r joban!!

Hefin Williams

Golygfa o oes a aeth heibio? Gaeaf 1947 faswn i'n ei ddweud. Sylwch ar felt tair streipen a 'bwcl-sarff' (←) sydd am ganol Ifan Cefnbraich. Roedd gen i a llawer un arall un o rheiny yn y '50au. Mae'r gwasgodiau a'r cetynnau 'shag' byrion fel eu gilydd yn prinhaus erbyn y gaeaf mawr 1963 efallai.

Duncan Brown

Pethau bychain cyfnod Cofid-19



Mawrth y 1^{af} ac mae clefyd pandemig Cofid-19 dal o gwmpas. Mae cysur ar gael yn y byd naturiol o'n cwmpas ac mae llawer ohonom yn chwilio am bethau bychain yno. Yn bur aml, pethau bychain iawn, dibwys o bosib, sy'n tynnu ein sylw ac mae Alys Fowler yn ein gwahoddi ni i **edrych i fyny coed** pan rydym ni'n mynd am dro (y **Guardian**). Mae cyfeillion Cymuned Llên Natur yn cyfrannu yn hyn o beth yn barod!


Look up to the trees to brighten your daily walk

Tiny flowers bloom early and brighten January's bare branches, says our gardening expert



Alys Fowler

The Guardian



Ffwng, cen a mwsogl yn y gaeaf...



Dafydd Morris ● 1 Chwefror 2021
● **mwsogl coesgoch** ● *Ceratodon
purpureus* ● Redshank moss
● Sir y Fflint



Matthew Davies ● 31 Ionawr 2021
● Mawddach ● *Cladonia rangiferina* [?]



Gillianm Brown ● Waenfawr
● **ysgwydd fawr llwyfen** [?]
● (*Rigidoporus ulmarius*) [?]
● 31 Ionawr 2021



Doming Kervegant
● 25 Ionawr 2021 ● Pandy, Tregarth
● **cwpanau robin goch**
● *Sarcoscypha coccinea*



Iwan Roberts ● 27 Ionawr 2021
● Pwllglas ger Rhuthun ● **coes
melfed** ● *Flammulina velutipes*

Owain Edward Williams
● 31 Ionawr 2021 ● **clust yr Iddew**
● *Auricularia auricula-judae* ● jelly
ear fungus ● Nant y Pandy



Gwawr Mowatt ● 31 Ionawr 2021
● **Pixie cup** ● *Cladonia diversa*
● Betws-y-coed [?]



Eirlys Ruhi Edwards-Behi
● 27 Ionawr 2021 ● *Xanthoria parietina*
neu *Candellaria* ● Llanfairfechan



Rhian Cadwaladr ● **cen pen
matsien** ● Rhosgadfan
● 1 Chwefror 2021 ● "Rhain yn
fychan fychan..."



Mair Evans ● 4 Rhagfyr 2020
● **Ymenydd melyn** (*Tremella
mesenterica*)

Goleuni'r Gogledd



Llewyrch yr Arth o Gwynfynydd, Traws, (noder galaeth Andromeda tua hanner ffordd i fyny'r llun ar y chwith fel smotyn llai siarp na'r sêr eraill) 6 Mawrth 2016

Keith O'Brien

■**Gwelwyd y llewyrch hwn mor bell i'r de a Swydd Rhydychen** "diolch i gyfuniad ffodus o amodau cosmig a daearol: y gwyntoedd solar yn gryfach nag arfer, gronynau yn symud y gyflym ac yn cysylltu'n dda â maes magnetig y ddaear ac awyr clir" meddai Amanda Townsend, cyngorydd tywydd gofodol i'r Swyddfa Dywydd.

■**Mae yna NN o gofnodion yn adrodd am Oleuni'r Gogledd wedi ei weld o Gymru** yng nghronfeydd Llên Natur o 1740 hyd yn ddiweddar. Mae rhain yn clystyru'n fras i 16 cyfnod (yn cyd-ddigwydd â chyfnodau o smotiau haul). Cofnododd William Bulkeley o'i fferm yn Y Brynddu, Llanerchymedd iddo weld y Goleuni pedair gwaith rhwng 1740 a 1743 gan ddweud ar y 21 Medi 1741:

"This night the whole Hemisphere was covered with what's called an Aurora Borealis, darting about & interweaving illars of light of severall colours thro the clouds from 8 till 10 when I went to bed, which made it lighter than any Moon Shiny night."

Thomas Edwards, Twm o'r Nant, Mae Thomas Edwards (Twm o'r Nant) yn defnyddio'r Goleuni (a chomed tua'r un pryd) fel ple i achub Lloegr(!) rhag Pabyddiaeth:

Beth yw gwaith, yr arwyddion maith, sy'n lanwaith y leni?

Y Seren gynffon, ar goleuni;

Ond rhybydd hynod on trueni.


Mae'n anghlir ai cyfeiro at Oleuni a welwyd o Gymru ynteu ai addasu tystiolaeth o ffynonellau Seisnig a wnaeth. Beth bynnag, digwyddodd hyn yn Hydref 1769 ar adeg anterth y **cylich smotiau haul**. Yn ogystal â'r 9 sylw o bapurau cyfnod Goleuni nosweithiol 1905-08 oedd un ysgrif cerdyn post gan ymwelydd diarwybod ar wyliau yn ardal Abergele.

"Abergele (marc post) 1 Gorff. 1908: 'Still alive in spite of the heat! It was absolutely roasting yesterday I sat in the shade of a haystack for a long time reading. It was delightful. It was so light last night that I could read easily at 1030'."

■**Beth oedd patrwm misol y cofnodion hyn a beth olygai hynny os unrhyw beth?** Gawson ni 11 cofnod yn y gwanwyn (Mawrth – Mai), dim ond 3 yn yr haf (Mehefin-Awst), 12 yn yr Hydref (Medi-Tachwedd, ac 16 yn y gaeaf (Rhagfyr-Chwefror). Mae'n ymddangos felly bod yr awrora yn llai tebyg o ddangos ei liwiau Cymreig in yr haf.

■**A beth am y patrwm daearyddol?** Oedd y cofnodion yn clystyru yn y gogledd mwy na'r de? Ar hyd yr arfordir yn hytrach na'r mewndir. Ynteu ar dir uchel mwy na'r gwaelodion?

Wrth gwrs mae pob math o factorau yn rheoli pwy sy'n mynd weld a chofnodi unrhyw ffenomenom yng Nghymru neu unrhyw fan. Hap a damwain yn un ohonyn nhw. Syndrom y copi-cat yn un arall: mae nifer o'r cofnodion uchod yn dod o'r gwahanol weisg papur newydd. Mae hynny golygu nad ydi'r clystyrau o gofnodion yn llwyr annibynnol ar eu gilydd, sy'n un hanfodion gwyntyllu dosbarthiad daearyddol neu amserol teg. Poblogaeth: po fwyaf o bobl sydd ar gael i weld rhywbeth, po fwyaf y tebygolrwydd y caiff ei gofnodi (mi fyddai cymhariaeth cofnodion canolbarth Lloegr yn ddadlennol yn hyn o beth). Tywydd: Byddai ardaloedd sy'n derbyn mwy o awyr clir yn sbarduno mwy o gofnodion awrora na llefydd eraill. Cofnodion ffug-negyddol (*false negatives*): mae cofnodion negyddol yn fwy tebyg o ddigwydd na chofnodion ffug-bositif. Golyga hyn bod y data yn lleiafysymiol (bod mwy o ddigwyddiadau o Oleuni wedi digwydd a heb eu cofnodi na bod Goleuni wedi ei gofnodi yn anghywir).



Grŵp
Llên Natur
ar Facebook



1 TO ALL ROSE HIP COLLECTORS

1,200 tons of Rose Hips collected in the last three years of the war provided nearly 6,000,000 bottles of ROSE HIP SYRUP.

Just as many hips will be needed this year and none of them will be wasted.

Because of the medicinal substances they contain, Rose Hips are the most valuable of our *Hedgerow fruits*. They should be gathered free from stalk as soon as they begin to turn orange in colour. It is better to pick them in dry weather and when they become soft they should be kept separate from the hard fruits. The hard fruits will be used for ROSE HIP SYRUP and this will be available at any Chemist's shop. The soft hips will be used to produce Briar Roses for the Rose-growing trade—30,000,000 briars used to be imported yearly from abroad.

Look out for the Rose Hip Poster which will tell you your nearest collection centre.

Collect as many Rose Hips as you can every week—you will be paid 3d. for each lb. when you take them to your local Depot.

Remember the valuable Vitamins in Rose Hip Syrup are needed by all children and many adults.



Byddai mam yn sôn am fynd i hel y mw cog a chael pres amdanynt. Hynny yng Ngwalchmai Môn yn ystod yr ail ryfel byd.

Llun 1

Olwen Evans

Mi oedda ni yn hel nhw tra yn ysgol bach Dolbadarn, credu eu bod nhw yn gwerthu nhw ymlaen wedyn. Neis oedd y 'Rose Hip Syrup', meddyginiaeth i ni.

Llun 2

Eiddwen Thomas

Mi oeddem ni yn Ysgol Rhiwlas yn eu casglu a chael arian amdanynt, dwi wedi casglu sawl sach!! - rhai blynyddoedd yn ôl bellach cofio cerdded Penfridd, Cae Mawr Camp a Fron i lenwi'r sachau wnaethom lenwi sacheidia do! amser braf. gafon hwyl!!

Ann Gruffydd Owen

Sach yn dal 7 pwys, un llawn yn werth 1s a 9c - tua 9 ceiniog mewn ceiniogau newydd! Mi roedd y sachau i'w gweld yn anferthol: "slave labour"!!

Al Efs

Mae Dad yn son bod plant yn casglu'r *rose hip* ar ei ffordd i'r ysgol adeg y rhyfel yn Llanuwchllyn.

Alan Evans

Roeddem ni, plant Llanfairfechan, yn eu hel nhw a chael bathodyn am wneud gan yr athrawes.

Angharad Williams

Nes i drïo gneud gwin efo nhw unwaith. Ddim yn llwyddianus iawn

Brenda Jones

Dwi'n cofio casglu nhw yn Llanfairfechan ar ôl y rhyfel. Y llwyni gorau i fynd yn ymyl Ysgol Sul y Nant!!!

Eleri Lewis

Dwi'n cofio hel nhw o gwmpas Tyddyn Llanrwst a mynd â nhw i siop gemist Mrs Rhys Williams yn Station Road.

Elizabeth Moran

Ysgol Glan Clwyd YRhyll wedi casglu sachau o rhain tua 1958.

Jen Richards

Dyna beth oedd Delrosa (**Amgueddfeydd Hull**). Wyt ti'n cofio hwnnw? Diod egroes i fabis. Heb ei weld ers blynyddoedd! Gormod o siwgrwr ynddo fo ella?

Sian Rees

Meddylies am wneud [diod egroes], pan roedd y plant yn fach, ond newidies i'n feddwl wrth ddarllen yn rhywle fod yr hadau bach main yn gallu achosi alergedd.

John Ginger Vevar Elin Owen

Taid yn gneud jam a jeli efo nhw. Perthi'n llawn ohonynt yma yn ddwyrain Northampton fel ma eirin duon - wedi gneud ugain o "sloe gin".

Gwn am ambell un yn Nhrevelin, yr Andes sy'n gwneud jam.

Llun 3

Eluned Morgan

Tybed ai'r un egroes sy'n tyfu yn y Wladfa ag yn fan hyn?

Yn gwneud te a jam gyda nhw! Ond eu prynu yn sych bellach...

Alwen Green

Yfed tamed yn ddyddiol o'r suddog wnes i mis Medi gan obeitho y parith imi trwy'r gaea ma. Wedi eu casglu o traeth bach, Tanybwllch, Aberystwyth. Blasus a llesol iawn!

Mair Jones



O'r Tywyddiadur

■ Rhosneigr 24 Medi 1942: 14lbs rose hips dispatched to Gwalchmai, as arranged by the WVS Organisation

Womens' Voluntary Service

■ 8 Rhosneigr Hyd 1942: 26lbs of rose hips were dispatched to Liverpool by train

■ Llandegfan 13 Hydref 1944: 84lbs rose hips sent to Mrs Thornton-Jones making a total for the month of 320lbs, £2.13.4 received for the rose hips (Log Book - Earle Webster Rd School, Llandegfan)


Arddangosfa Oriol Môn 2010

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!



Cysylltwch gyda ni:
llennatur@yahoo.co.uk

Dewiswch Cliciwch!
Gwefan
Llên natur



Y Tywyddiadur Y Bywiadur Cyhoeddiadau Yr Oriol Pytiau Fideo Llyfrgell Llais Mapiau

Cofio Peter Benoit

Ym mis Ionawr fe gollon nîr botanegydd gorau NA welodd lawer o Gymry erioed. Athrylith o Abermaw, Meirionnydd, oedd Peter Benoit (1931-2021) ac fe enillodd barch mawr ei gyfoeswyr yn ei faes ar raddfa eang er iddo gyfyngu ei yrfa i raddau mawr i'w sir fabwysedig - Meirionnydd. Prin yw cof pob leol amdano mae'n debyg.

Fe'i ganwyd ar 8 Mawrth 1931

"I was born on the 8th March and family folklore has it that I arrived during a freeze up when the parents were coping with a burst water pipe."

Bu fyw bywyd syml, tlawd wrth safonau heddiw, gyda'i fam a fu farw ar y 14 Mawrth 2000. Ni soniai byth am ei dad a oedd mae'n debyg o dras Ffrengig gyda chysylltiadau yn Le Touquet. Cafodd ei fagu yn gyntaf yn nghanolbarth Lloegr ond o ddeg oed ymlaen ac am weddill ei oes bu'n byw yn Y Bermo, a sir Feirionnydd oedd ei ardd, ei gynefin a thestun ei gariad.

Dyn swil, tawel a phreifat oedd Peter, ond enillodd statws eang fel botanegydd. Ni chafodd fawr o addysg ffurfiol - ystyriai ei fam ef yn rhy *delicate* i Ysgol Uwchradd y Bermo (caewyd yn 1957). Cymaint o feudwy ydoedd fel y câi ond y detholedig rai wahoddiad i'w gartref, Pencarreg, ar y graig uwchben Y Bermo. Daeth i'r Bermo gyntaf yn naw oed yn 1940; bu'n byw mewn pum tŷ yno cyn setlo gyda'i fam am weddill ei oes o'r bron ym mwthyn Pencarreg uwchben y dref (nes gorfod mynd i'r cartref henoed yno yn lled diweddar). Prynwyd y bwthyn oddiwrth AJ Hewins (Hewins, newidiodd enw'r tŷ o Garreg yr Helbul i Ben Carreg gan nad oedd yn tybio bod yr enw gwreiddiol yn argoeli'n dda iawn!). Llwybr troed garw yn unig a arweinai at Pencarreg.

Roedd yn un o gylch llac o fotanegwyr Cymreig canol yr 20g., megis William Condry, Arthur Chater, Mary Richards, Maldwyn Thomas, Goronwy Wyn a Dafydd Dafis (Rhandirmwyn). Pan ymgartrefodd y botanegydd hŷn Mary Richards (1885-1977) yng Nghaerynwch, Dolgellau yn y 1940au ar ôl byw yn Ne Affrica, trwy ohebiaeth yn unig oedd ei chysylltiad â Peter. Pan gyfarfuon nhw o'r diwedd syfrdanwyd Richards, a ddychmygai tan hynny mai dyn canol oed hwyr oedd y botanegydd ifanc, yn meddu ar wybodaeth gwyrthiol ('with such prodigious knowledge' oedd ei disgrifiad).

Ni chafodd 'yrfa' fel y cyfryw – ei ddiddordeb oedd ei waith a'i waith oedd ei fywyd. Ei gyhoeddiad swmpus cynharaf – ac efallai ei unig gyhoeddiad cynhwysfawr - yw ***A Contribution to a Flora of Merioneth***. Cyhoeddodd nifer o bapurau o sylwedd, yn bennaf i'r **BSBI** ac yn fwy poblogaidd i ***Nature in Wales***. Roedd yn gymedrolwr swyddogol y **BSBI** ar gyfer y genws *Ulex* (eithin), *Erodium* (pig y creyr) ac eraill, sy'n golygu mai ei farn ef oedd yn derfynnol ar unrhyw gwestiwn yn ymwneud â'r genws hwnnw.

Roedd ei arsylwi craff a'i ddawn dylunio yn amlwg mewn nifer o'i fan gyhoeddiadau yn y cylchgronnau arbenigol *Microsoft Word - Erodium.doc* (bsbi.org) Un o uchafbwyntiau ei yrfa oedd darganfod hebrid gwbl newydd rhwng dau fath o hesg cyffredin (*Carex binervis x punctata*). Fe'i disgrifiodd yn wyddonol fanwl ar gyfer cylchgrawn dysgedig y **BSBI** *Watsonia* Cydnebid ei ddawn yn fuan gyda Gerddi Kew yn Llundain yn cynnig swydd academaidd iddo ond fe'i gwrthododd, mor gryf

oedd ei natur meudwyaidd a'i ymlyniad i'w filltir sgwar (cys. pers. Peter Hope Jones)

Cyflawnodd nifer o orchwyllion cyflogedig achlysurol gyda'r cyrff cadwriaethol (yn benodol Cyngor Cefn Gwlad Cymru).

Roedd yn athro wrth reddf ond nid efallai trwy ddymuniad. Dyma un o'i olynwyr fel cofnodwr planhigion Meirionnydd, Sarah Stille: *My thanks go first and most importantly to Peter Benoit who was Vice-county Recorder for Merioneth for the greater part of the twentieth century. As a young man he co-wrote A Contribution to a Flora of Merioneth, and brought it to publication in 1963, while his co-author,*

Mary Richards, was mostly working in Africa. He continued to dedicate his life to the Vice-county and its flowering plants and bryophytes, until his retirement in 2010. He was generous with his teaching and his time and I have happy memories of many long days in the field with him.

Cofnodion amdano:

Cofio cyfarfod o efo Geraint Thomas wrth ei dŷ ar lethrau Dinas Oleu.
Arbenigwr diymhongar.

Richard Gwyn Neale

Mi ges inna gyfle flynyddoedd lawer yn ôl i fynd i weld Coed Dolybebin, Cwm Bychan, yn ei gwmni fwy nag unwaith, yn ei sgidia dydd Sul! Athrylith ym myd y planhigion, yn sicr, ac yn gwbod lle'r oedd pob math o betha'n tyfu yn Ardudwy, ei filltir sgwâr, ac yn ehangach.


Haf Meredydd

Ei unig lyfr 'poblogaidd' a gyhoeddodd erioed (yn y '60au) oedd ***A Contribution to a Flora of Merioneth*** - bu'n edifar ganddo ei gyhoeddi yn hwyrach yn ei fywyd oherwydd iddo dynnu sylw at leoliadau planhigion prin. Sylwch ar y gair 'contribution' - doedd o ddim yn ystyried ei hun yn gymwys i ysgrifennu " *'Flora' of Merioneth* " er ei fod ar anterth ei yrfa ar y pryd. **Duncan Brown**

Ei ddiddordebau eraill: Sylwai ar popeth a ddeuai i'w olwg, stampiau, mân ysgrifen ar nwyddau, tarddiad nwyddau, enwau lleoedd a'u hystyr. Sylwai ar adar, gloynnod ayb ac roedd yn ddylunydd amatur talentog. Roedd yn gofnodwr tywydd trylwyr gydag offer syml tec-isel (cofnodi'r rhew ar bowlen ddŵr y bwrrd adar): *"I hope [DB] you enjoyed/survived the heat wave. Out here on the coast we did not generally get the extreme temperatures there were inland - around 22 or 23C in shade was usual. But there was a notable exception - the 19th July when at 14:30 I recorded 33C in the shade, the highest temperature I have ever known at Barmouth. Today [17 Awst 2006] it was 14C which is only about 4C warmer than an ordinary Barmouth winter day."*

I gloi: Roedd yn gymeriad swil, hapus ei fyd, hen ffasiwn fel jwg, chwilfrydig, gwylaidd, deallus a hoffus. Aeth i'r ysgol yn y Bermo heb ddisgleirdeb amlwg, ond cafodd wahoddiad i weithio yn Kew ar sail ei allu cynhenid yn unig (ac fe wrthododd!). Ni chafodd unrhyw hyfforddiant ffurfiol. Ni fu iddo grwydro bron ddim erioed o'i filltir sgwar. Mae ei gofnodion botanegol a'i gasgliad o fwsoglau yn rhyfeddod i'w gweld (**llun uchaf**), popeth wedi ei ffeilio mewn bocsus 'sgidiau neu wedi eu lapio mewn hen bapur newydd! **Dyma oleuni a ddisgleiriodd ennyd cyn diffodd drachefn dan lestr ein difaterwch. Fe'i claddwyd wrth ymyl bedd ei fam ym mynwent Llanaber yng ngolwg y tir a'i ysbrydolodd gyntaf.**

I ddarllen ei hanes yn llawn ewch i'w dudalen Wikipedia _ Peter Benoit



Clwb y Llygaid Bach



Adnabod Caneuon Adar yr Afonydd a'r Llynnoedd 2

Prosiect Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd

1 Smotiau du ar y cefn brown
Crwmp tywyll



Bar gwyn ar ei adain hir, siap bwa

Bol gwyn



4 Pîg du



Cefn a chrwmp glas llachar

Oren oddi tano



2 Cefn llwyd



Cynffon hir

(Haf) Gwddf du, bron felen llachar

Coesau byr



5 Pen brown



Cynffon fer

Gwddf gwyn

Bol browngoch



3 Gwddf hir Plu hir du ar y pen



Cefn llwyd

Pîg fel cylllell

Coesau hirion



6 Fo Pen gwyrdd, pîg felen



Brith frown, bol brown

Hi

Bol llwyd

Coesau oren



Enw'r Aderyn	Pa Rif?	Pwynt
--------------	---------	-------

Creyr glas	—	10
Hwyaden wyllt	—	10
Glas y dorlan	—	15

Enw'r Aderyn	Pa Rif?	Pwynt
--------------	---------	-------

Pibydd y dorlan	—	20
Siglen y dŵr	—	10
Bronwen y dŵr	—	10